BWRDD PENSIWN

20 GORFFENNAF 2021

YN BRESENNOL: John Jones (Cadeirydd);

Aelodau'r Pwyllgor:
Cynghorydd Philip Hughes - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau;
Cynghorydd Gareth Lloyd - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau;
Mr Tommy Bowler - Cynrychiolydd o'r Undeb;
Mr. M Rogers - Cynrychiolydd Pensiynwyr sy'n Aelodau.

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd Elwyn Williams - Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed;
Mr A. Brown – Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol;

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol;
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn;
M. Owens, Cyfrifydd Cynorthwywr;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 11:21yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mr Gwyn Jones (Cynrychiolydd Aelodau) a Mr Paul Ashley-Jones (Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau)

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

3. COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A GYNHALIWYD AR 16 EBRILL 2021

CYTUNWYD i lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2021 gan eu bod yn gywir.

4. CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2021

4.1. COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED 17 CHWEFROR 2021

Nododd y Bwrdd fod cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, 2021 wedi eu derbyn gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed.

4.2. SEFYLLFA GYLLIDEBOL DERFYNOL 1 EBRILL 2020 - 31 MAWRTH 2021

Derbyniodd y Bwrdd sefyllfa Gyllidebol derfynol Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2020-21 ar 31 Mawrth 2021 a oedd yn dangos gorwariant o gymharu â chyllideb o £837k ar eitemau arian parod. Cyfanswm y gwariant oedd £101.3m a chyfanswm yr incwm oedd £100.5m.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

4.3. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2021

Bu'r Bwrdd yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd ar 31 Mawrth, 2021 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £8.8m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

4.4. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad a roddai ddiweddariad ar Weinyddu Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, cyflogwr newydd, y gofrestr torri amodau, i-Connect, adroddiadau Ansawdd Data, cysoniad GMP a llif gwaith.

Cyfeiriwyd at y diweddariad Rheoleiddio. Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynglŷn â'r wybodaeth ddiweddaraf am McCloud/Sargeant, esboniodd y Rheolwr Pensiynau fod cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda 3 o'r cyflogwyr mwyaf er mwyn egluro'r categorïau a'r aelodau yr oedd angen uwchlwythiadau ar eu cyfer ac y rhagwelwyd y byddai rheoliadau a chanllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2022 yn dilyn ymgynghoriad.

Yn dilyn pryder a godwyd ynghylch faint o waith fyddai casglu data ar gyfer gweithwyr sydd wedi gweithio rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022, dywedodd y Rheolwr Pensiynau fod angen ailgyfrifo'r buddion, ac y byddai hyn yn cael ei gwblhau maes o law trwy gynllun prosiect manwl.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

4.5. ADRODDIAD TORRI AMODAU 2021-22

Cafodd y Bwrdd yr Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd bod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith.

Nododd y Bwrdd fod nifer o achosion wedi bod ers y cyfarfod diwethaf lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwr wedi'u derbyn ar amser. Roedd y rheini bellach wedi dod i law felly nid oedd unrhyw adroddiad wedi'i anfon at y Rheoleiddiwr Pensiynau.

PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed

4.6. COFRESTR RISG 2021-22

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod y Gofrestr Risg yn ddogfen waith a oedd yn tynnu sylw at yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Dywedwyd bod y gofrestr risg ar gyfer 2021-2022 wedi'i hadolygu i sicrhau bod risgiau wedi cael eu nodi a'u hasesu. Dywedwyd nad oedd unrhyw newidiadau ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd fod y wybodaeth yn y pennawd wedi cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd i Bwyllgor Bwrdd Pensiwn Dyfed.

Cytunwyd i nodi adroddiad y gofrestr risg ar gyfer 2021-2022.

4.7. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU 2021-24

Derbyniodd y Bwrdd Gynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru i'w ystyried ar gyfer y cyfnod 2021-2024, yn nodi sut oedd y Gronfa yn mynd i gyflawni ei hamcanion a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gyflawni'r amcanion hynny.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynglŷn â pholisi ynghylch cyfranddaliadau pleidleisio, eglurodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn fod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Robeco UK fel y darparwr pleidleisio ac ymgysylltu a'i fod yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar weithgaredd pleidleisio yn ogystal â darparu adroddiadau chwarterol a blynyddol.

CYTUNWYD i nodi Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2021-24.

4.8. CYNLLUN HYFFORDDI 2021-22

Derbyniodd y Bwrdd Gynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2021-2022, i'w ystyried, a oedd yn darparu manylion am gyfarfodydd, digwyddiadau hyfforddi a'r aelodau a'r swyddogion y rhagwelwyd y byddent yn mynychu'r digwyddiadau.

CYTUNWYD y dylid nodi Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2021-22.

4.9. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2021

CYTUNWYD y dylid nodi cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021.

5. CYNLLUN GWAITH Y BWRDD PENSIWN 2021

Ystyriodd y Bwrdd Gynllun Gwaith y Bwrdd Pensiynau ar gyfer 2021 a oedd yn amlinellu gwaith y Bwrdd Pensiynau drwy gydol 2021 a'r eitemau i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod.

CYTUNWYD i nodi'r cynllun gwaith ar gyfer 2021.

6. MONITRO CYLLIDEB Y BWRDD PENSIWN 1 EBRILL 2021 - 30 MEHEFIN 2021

Cafodd y Bwrdd adroddiad Monitro Cyllideb terfynol y Bwrdd Pensiwn a rhoddwyd ystyriaeth i'r sefyllfa gyllidebol fel ag yr oedd ar 30 Mehefin 2021. Ar 30 Mehefin 2021, dangoswyd tanwariant o'i gymharu â chyllideb o £4.5k.

Cytunwyd i dderbyn adroddiad Monitro Cyllideb y Bwrdd Pensiwn 1 Ebrill 2020 – 30 Mehefin 2021.

7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31 MAWRTH 2021

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn.

Ystyriodd y Bwrdd Adroddiad Perfformiad a Risg yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Mawrth 2021, ynghyd â chefndir y farchnad fyd-eang a materion i'w hystyried.

PENDERFYNWYD nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021.

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31 MAWRTH 2021

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn.

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau cyn i'r gronfa gychwyn.

PENDERFYNWYD nodi adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021.

10. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 31 MAWRTH 2021

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau rheolwyr buddsoddi a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2021. Rhoddwyd ystyriaeth i'r atodiadau canlynol:-

- Atodiad A - BlackRock - Adroddiad Chwarterol 31 Mawrth 2021
- Atodiad B - Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch1 2021
- Atodiad C - Grŵp Partneriaid - Adroddiad Chwarterol Ch1 2021
- Atodiad D - Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2021
- Atodiad E - Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2021

CYTUNWYD i nodi adroddiadau'r Rheolwr Buddsoddi - Atodiad A-E ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.

11. ADRODDIAD CEM BENCHMARKING 2019-20

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn.

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad CEM Benchmarking 2019-2020 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn cynnwys asesiad annibynnol o werth am arian trwy gymharu costau a pherfformiad â chronfeydd pensiwn eraill.

CYTUNWYD i nodi adroddiad CEM Benchmarking 2019-2020 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**